VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

# GWEITHDREFNAU HYSBYSU ABSENOLDEB SALWCH

Rhaid i bob cyflogai gydymffurfio â’r weithdrefn hysbysu absenoldeb ganlynol:-

| | |
|---|---|
| DIWRNOD 1 | Pan fo cyflogai yn absennol o’r gwaith oherwydd salwch, rhaid iddo ef/iddi hi hysbysu ei R/Rheolwr Llinell (neu swyddog arall a enwir) cyn dechrau’r diwrnod gwaith/shifft. Pan fydd angen trefnu rhywun arall i wneud y gwaith, bydd rhaid gwneud hyn o leiaf 1 awr cyn dechrau'r diwrnod/shifft neu yn unol â'r trefniadau wnaed yn lleol. Dylai’r cyflogai esbonio natur y salwch i’r rheolwr gan nodi am ba hyd y mae'n debygol o fod yn sâl a beth yw'r cyfrifoldebau gwaith am y diwrnod hwnnw. |
| DIWRNOD 4 | Ar y pedwerydd diwrnod calendr o absenoldeb rhaid i'r cyflogai gysylltu â'i Reolwr Llinell (yn unol â'r amserau a amlinellir uchod) i'w ddiweddaru am ei absenoldeb. |
| DIWRNOD 8 | Ar yr wythfed diwrnod calendr o absenoldeb rhaid anfon tystysgrif feddygol ar unwaith a rhaid i’r cyflogai ffonio ei Reolwr Llinell (yn unol â'r amserau a amlinellir uchod). Er mwyn rhoi ystyriaeth i amser postio, mae’n rhaid i’r dystysgrif ddod i law ddim hwyrach na’r pedwerydd diwrnod ar ddeg o absenoldeb. |

Os na fydd cyflogai’n cydymffurfio â’r weithdrefn hysbysu salwch, bydd yr absenoldeb fel arfer yn cael ei ystyried fel un na chafodd ei awdurdodi, na fydd yn cael ei dalu a bydd y mater yn cael ei gyfeirio drwy’r weithdrefn ddisgyblu.

| | |
|---|---|
| CAMAU PAN FYDDWCH YN ABL I DDYCHWELYD I’R GWAITH | Pan fyddwch yn abl i ddychwelyd i waith rhaid i chi ddweud wrth eich Rheolwr Llinell ar y diwrnod cyn i chi ddychwelyd, er mwyn i drefniadau priodol gael eu gwneud. |
| CAMAU WRTH DDYCHWELYD I WAITH | Wrth ddychwelyd i’r gwaith rhaid i chi roi gwybod i’ch Rheolwr Llinell. Bydd eich Rheolwr Llinell yn cynnal cyfarfod Croeso yn ôl i’r Gwaith. Yn y cyfarfod Croeso yn ôl i’r Gwaith bydd y ffurflen hysbysu absenoldeb salwch/dychwelyd i’r gwaith yn cael ei llenwi. |
| SALWCH YN YSTOD GWYLIAU BLYNYDDOL | Os byddwch yn mynd yn sâl yn union cyn neu yn dilyn gwyliau blynyddol, rhaid cyflwyno nodyn gan feddyg yn dweud eich bod yn abl i ddod yn ôl i’r gwaith, cyn y bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i adfer y gwyliau blynyddol. Bydd hyn yn ddibynnol ar gyflwyno tystysgrif feddygol i gadarnhau'r absenoldeb a chydymffurfio â'r gweithdrefnau hysbysu absenoldeb salwch. |